**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Adroddiad Blynyddol Drafft i'r Cyfarfod Llawn: Gorffennaf 2003 hyd Mawrth 2004**

**Cyflwyniad**

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol. Yn unol â Rheol Sefydlog 10.1, mae'n cynnwys Ceredigion, Powys a'r rhan o Wynedd sy'n cynnwys cyn ddosbarth Meirionnydd.

2. Rhoddwyd swydd y Cadeirydd i'r Blaid Geidwadol, yn unol â'r cytundeb rhwng y grwpiau gwleidyddol. Lisa Francis etholwyd yn Gadeirydd.

3. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Nicholas Bourne, Glyn Davies, Elin Jones, Helen Mary Jones, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas, Kirsty Williams a Mick Bates.

Cylch Gwaith a Dull Gweithio

4. Rôl y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 10.2, yw rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad arnynt, a gwaith y cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau hynny.

5. Ac eithrio rhai newidiadau, mae'r Pwyllgor wedi parhau â'r arferion gwaith a sefydlwyd yn ystod y Cynulliad cyntaf. Yn benodol, mae wedi gweithredu fel un pwyllgor ledled y rhanbarth gan ganolbwyntio ar un thema benodol ym mhob cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn dal i bwysleisio rôl y cyhoedd yn ei gyfarfodydd. Cynhelir sesiwn 'meicroffôn agored' ym mhob cyfarfod i roi cyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau i'r panel ac i Aelodau'r Cynulliad. Pan fo'n briodol, mae'r Cadeirydd yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn derbyn ateb ysgrifenedig oddi wrth Weinidog perthnasol y Cynulliad.

6. Yn ystod y cyfnod, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn Aberystwyth, Llandrindod ac Aberdyfi.

7. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i feithrin cysylltiadau â phartneriaid allweddol o'r rhanbarth yn y sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Yn y tabl isod, gwelir enwau'r prif gyrff a gafodd eu gwahodd i gwrdd â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2003 a Mawrth 2004**

| Dyddiad | Lleoliad | Pwnc |
|---|---|---|
| 11 Gorffennaf 2003 | Neuadd Gymunedol Waunfawr, Aberystwyth | Bu'r Pwyllgor yn ystyried materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn y rhanbarth. Gwrandawodd ar gyflwyniadau gan:<br>Y Cynghorydd Keith Evans, Aelod y Cabinet dros Briffyrdd, Eiddo a Gwaith, Cyngor Sir Ceredigion;<br>Garfield Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Peirianneg, Cyngor Sir Ceredigion;<br>Lyndon Davies, Cadeirydd, Siambr Fasnach Aberystwyth a'r Fro |
| 10 Hydref 2003 | Gwesty'r Metropole, Llandrindod | Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ynghylch y problemau o ran darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, yn gysylltiedig ag adolygiad polisi'r Pwyllgor Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad.<br><br>Cafwyd cyflwyniadau oddi wrth:<br>David Tomlinson, Swyddog Datblygu'r Strategaeth Tai Gwledig, Cyngor Sir Powys;<br>Eric Bowles, Pennaeth Cynllunio Lleol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;<br>Huw Lewis ac Aled Davies, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg;<br>Shane Perkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol, Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru;<br>Charles Raw-Rees, Jim Raw-Rees and Co, Gwerthwyr Tai. |
| 6 Chwefror 2004 | Neuadd Dyfi, Aberdyfi | Thema'r cyfarfod hwn oedd darparu gwasanaethau meddygol 'y tu allan i oriau' mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol.<br><br>Cafwyd cyflwyniadau oddi wrth:<br>Grace Lewis-Parry, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd;<br>Monica Lewis, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Ceredigion;<br>Kim Richards, Rheolwr Practis y Ganolfan Iechyd yn Nhywyn. |

**Blaenraglen waith**

9. Bydd Helen Mary Jones yn mynd i'r Gadair ar ddechrau tymor yr hydref a, chan ymgynghori â'r Aelodau, bydd yn datblygu'r rhaglen waith i sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i ddarparu cyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau lleol yn y rhanbarth.